

CYNGOR TREF PORTHMADOG



Cofnodion Cyfarfod Rheolaidd y Cyngor Tref Hydref 10 2023

Presennol :- Cynghorwyr :- Aled Griffith, Sandra Bodden Jones, Alwyn Gruffydd, Carol Hayes, Michael Roberts, Dr Melfyn Edwards, Llywelyn Rhys, Gwilym Jones

Y cyhoedd :- Cyng. June Jones

Marian Roberts (Clerc)

Absennol :- Cyng Llinos Murphy

145.10.23 Ymddiheuriadau:- Cynghorwyr :- Connor Westwood, John Gwynedd Roberts

146.10.23 Adroddiad y Cadeirydd.

“Croeso i gyfarfod mis Hydref.

Edrych yn ôl ers y cyfarfod diwethaf - Tymhorau yn dechrau newid a theimlad hydrefol ynddi. Tywydd eithaf yr wythnosau diwethaf, eto sydd yn creu problemau mewn rhai ardaloedd sydd yn cael eu staffio yn dymhorol yn unig e.e traeth Craig Ddu. A ddylid pwysu ar Gyngor Gwynedd i ail edych ar staffio'r ardaloedd yma fel bod y tymhorau gwyliau yn raddol ymestyn tu allan i dymor yr haf?

Cofion - Cydymdeimlwn a chofiwn at bawb yn yr ardal sydd wedi colli eu hanwyliaid.

Y Stryd Fawr a cyrion y dref - Wedi colli dwy siop dros yr wythnosau diwethaf, ond ambell i adeilad yn dal yn cael gwariant arnynt er mwyn agor yn y dyfodol e.e Hen Fanc Barclays, Grapevine a cyn swyddfa Arloesi Gwynedd. Croeso mawr i agoriad y swyddfa newydd Arloesi Gwynedd / Ffiws, werth ymweld. Eto, gweld y newid ar y Stryd Fawr, llai o siopau manwerthu a mwy o ardaloedd hamdden/swyddfeydd ac ati.

Darllen am y gwesty newydd yn y dref yn ddiweddar a hapus gyda'r ddwy flynedd gyntaf, yr ystafelloedd oddeutu 80% yn llawn sydd yn helpu economi'r stryd fawr ac ardal o gwmpas Porthmadog.

Cafwyd taith i gwmpas y dref ddoe yng nghwmni rhai o swyddogion Cynllun Creu Lleoedd Cyngor Gwynedd ac aelodau o gwmi Savill's sydd wedi derbyn cytundeb i gydweithio â Chyngor Gwynedd i wella rhai o drefi'r sir. Roeddynt wedi cael argraff dda iawn o'r dref ac wedi cael agoriad llygad o weld potensial yma i ddatblygu ymhellach. Edrychwn ymlaen i dderbyn eu adroddiad a'u argymhellion cyn y Nadolig.”

147.10.23 Cadarnhau cywirdeb cofnodion Cyfarfod Llawn Medi 12 2023

Cafwyd yn gywir yn ôl cynnig Cyng Carol Hayes, Cyng Michael Roberts yn eilio.

148.10.23 Cyfle i'r Cynghorwyr ddatgan diddordeb.

Dim datganiad o ddiddordeb.

149.10.23 CEISIADAU CYNLLUNIO

(a) Rhif Cais.: C23/0656/44/LL (wedi ebostio 5.9.23)

Lleoliad : Telecom Prydeinig Stryd Fawr, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9HE

Bwriad : Creu compownd diogel yng nghefn y gyfnewidfa teleffon i gynnwys 1 cynhwysydd storio 6m a fydd yn cynnwys offer a deunyddiau i gynnal rhwydwaith isadeiledd telathrebu lleol a gosod ffens fetal galfanedig heras 1.8 metr o uchel o amgylch perimedr yr ardal storio

Penderfynwyd :- Dim gwrthwynebiad

(b) Rhif Cais / Application No.: C23/0682/44/LL (wedi ebostio 6.9.23)

Lleoliad: Pet & Aquatic Centre, Pet & Aquatic Centre, 41 Stryd Fawr, Porthmadog, Gwynedd, LL49

9LR

Bwriad I: Gosod adlen ol-dynadwy i flaen siop.

Penderfynwyd :- Dim gwrthwynebiad

(c) Rhif Cais .: C23/0744/44/TC (wedi ebostio 22.9.23)

Lleoliad : 27 Cei'r Wyddfa, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9ND

Bwriad : Tystysgrif datblygiad cyfreithlon arfaethedig i ddefnyddio'r eiddo o fewn dosbarthiadau defnydd C3, C5 a C6 o'r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarth Defnydd) 1987 (fel y'i diwygiwyd)

Penderfynwyd :- Dim gwrthwynebiad

(ch) Rhif Cais C23/0755/44/DT (wedi ebostio 4.10.23)

Lleoliad : Pen Y Berth, 12 Ffordd Osmond, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9AL

Bwriad : Ychwanegu ffenestr sengl i'r gegin er mwyn gadael fwy o olau i fewn i'r ystafell.

Penderfynwyd :- Dim gwrthwynebiad

(d) Rhif Cais .: C22/0528/44/LL (wedi ebostio 5.10.23)

Lleoliad : Banc Hsbc, 62 Stryd Fawr, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9LN

Bwriad : Gosod camera CCTV

Penderfynwyd :- Dim gwrthwynebiad

(dd) Rhif Cais / Application No.: C23/0764/44/DT (wedi ebostio 6.10.23)

Lleoliad : Bodlondeb Ffordd Morfa Bychan, Morfa Bychan, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9UY

Bwriad : Estyniad bwriedig i gefn ac ochr yr annedd.

Penderfynwyd :- Dim gwrthwynebiad

MATERION I'W DWYN GERBRON :-

150.10.23 Cyng Carol Hayes :- Cynnig ein bod yn cysylltu ar frys gyda'r adran berthnasol o Gyngor Gwynedd i fynegi ein siom am y gwasanaeth difrifol wael y mae'r dref wedi dderbyn gan Dîm Tacluso Ardal Ni, gan ofyn iddynt weithredu yn syth i lanhau palmentydd Porthmadog , chwynnu a glanhau a thacluso.

Penderfynwyd :- gweithredu ar gynnig Cyng Carol Hayes, Cyng Michael Roberts yn eilio.

Cymerodd yr Is-Gadeirydd y gadair tra'n trafod cynigion y Cadeirydd.

151.10.23 Cyng Aled Griffith :- cynnig ysgrifennu at Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd i holi os oes bwriad yn y dyfodol i uwchraddio arwyddion Porthmadog, Tremadog, Borth y Gest a Morfa Bychan. Os dim, cynnig cael prisiau i uwchraddio trwy gynllun incwm Maes Parcio.

Penderfynwyd :- gweithredu ar gymal cyntaf cynnig Cyng Aled Griffith , Cyng Sandra Bodden Jones yn eilio.

152.10.23 Cyng Aled Griffith :- cynnig bod y Cyngor Tref yn cyflogi glanhawr stryd (rhan-amser) i gynnal a chadw strydoedd Porthmadog.

Penderfynwyd :- gadael y mater ar y bwrdd a'r Clerc i holi Cyngor Tref Pwllheli (sydd eisoes yn cyflogi glanhawr stryd) am fwy o fanylion.

153.10.23 Cyng Aled Griffith :- Cynnig dod i benderfyniad ar ble mae Cyngor Tref Porthmadog yn sefyll os caiff newidiadau Erthygl 4 eu cymeradwyo gan Gyngor Gwynedd.

Penderfynwyd : cytuno ar egwyddor Erthygl 4 a chefnogi Cyngor Gwynedd yn ôl cynnig Cyng Llywelyn Rhys, Cyng Dr Melfyn Edwards yn eilio.

Dychwelodd y Cadeirydd i'r gadair i barhau â'r cyfarfod.

154.10.23 Penderfynu ar drefniadau Goleuo Port 24.11.23.

Penderfynwyd ar y canlynol :- gwahodd aelodau o Gôr Cynhaearn i ganu Carolau yn y Parc; derbyn gwahoddiad Starlight Players i berfformio yn y Parc; Sion Corn i oleuo'r goeden yn y Parc; symud wedyn i'r Ganolfan lle bydd Sion Corn yn rhannu anrhegion o'r grotto; darparu lluniaeth ysgafn yn y Ganolfan. Bydd y Clerc yn cadarnhau'r trefniadau gyda swyddogion y Ganolfan.

155.10.23 Penderfynu ar ddyddiad Archwiliad Cae Pawb mis Tachwedd.

Penderfynwyd ar fore Sadwrn, Tachwedd 4ydd am 10.00. Bydd y Clerc yn hysbysu Pwyllgor Rhandiroedd Cae Pawb o'r dyddiad.

156.10.23 Cyng Gwilym Jones :- Cynnig bod y Cyngor Tref yn cefnogi cynllun Cyngor Gwynedd i roi llinellau melyn ar y troad i fewn i stâd Cefn y Gader o Lon Gwydryn.

Penderfynwyd :- gweithredu ar gynnig Cyng Gwilym Jones, Cyng Dr Melfyn Edwards yn eilio.

157.10.23 Materion i'w dwyn gerbron y Cadeirydd unai er gwybodaeth neu i'w rhoi ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf. Dyddiad cau Rhaglen Tachwedd 14 2023 = Tachwedd 4 2023 , (Rheolau Sefydlog 8.1 " o leiaf deg diwrnod cyn cyfarfod y Cyngor".)

158.10.23 Gohebiaeth : Rhestr Aros am Ateb (copi ynghlwm).

Penderfynwyd :- dileu llythyrau 4.2.23; ail yrru llythyrau 15.5.23 a 18.6.23; dileu llythyr 15.7.23.

GOHEBIAETH :

159.10.23 HYWYN WILLIAMS C.G., Cyllid ar gyfer gwella tiroedd er budd natur

Penderfynwyd :- gadael y mater ar y bwrdd a meddwl am syniadau erbyn y cyfarfod nesaf.

160.10.23 LLINOS MURPHY, Llythyr ymddiswyddiad

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth ac ysgrifennu i ddiolch iddi am ei gwasanaeth. Nodwyd bod 6 Sedd Wag ar y Cyngor erbyn hyn a **phenderfynwyd** y byddai pob Cyngorydd yn chwilio am un enw i'w roi gerbron ar gyfer y cyfarfod nesaf yn ôl cynnig Cyng Dr Melfyn Edwards, Cyng Carol Hayes yn eilio.

161.10.23 STEFFAN SMITH, Tai o dan arweiniad y gymuned – diwrnod gwybodaeth

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth

162.10.23 NIA HELEDD REES C.G., Clwb Ieuenctid Porthmadog

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth ac ysgrifennu'n ôl i gynnig parhau i ariannu'r Clwb Ieuenctid trwy dalu costau llogi'r Ganolfan i'r dyfodol yn ôl cynnig Cyng Michael Roberts, Cyng Sandra Bodden Jones yn eilio.

163.10.23 NETWORK RAIL, Cau Croesfan Gorseddau – gweler lluniau 1,2,3

Trafodwyd y peryglon i'r cyhoedd petai'r groesfan yma yn cau a dangoswyd lluniau o'r sefyllfa ar Cambrian Terrace. Petai'r llwybr yn cael ei gau yna byddai'n rhaid i gerddwyr gerdded ar hyd y ffordd yn Cambrian Terrace a wedyn ar y llain tir o flaen Portico sydd yn eiddo i'r busnes ac yn fan parcio i'r busnes. Cytunwyd y byddai cau'r llwybr yn creu peryglon difrifol i ddisgyblion ar eu ffordd i Ysgol Eifionydd ac i'r cyhoedd yn gyffredinol.

Penderfynwyd :- gwahodd swyddogion Network Rail i gyfarfod rhai o'r Cynghorwyr ar y safle i drafod y ffordd ymlaen yn ôl cynnig Cyng Carol Hayes, Cyng Llywelyn Rhys yn eilio.

164.10.23 MICHAEL PARRY – MAER PWLLHELI, Cyfarfod cyhoeddus – Ambiwllans Awyr (wedi trosglwyddo o gyfarfod 12.9.23)

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth a chadarnhau y bydd Cyng Carol Hayes a'r Cyng Dr Melfyn Edwards yn mynychu'r cyfarfod ar 18.10.23.

165.10.23 SIMON OGDON, Ymateb i 113.9.23 dyfodol adeilad Eglwys Sant Ioan

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth a chadw llygad ar y sefyllfa.

166.10.23 FFION GWYN, Ymateb i 134.9.23 bwrdd dehongli Madocks

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth

167.10.23 DAFYDD R JONES C.G - Gorchymyn diwygio Cyngor Gwynedd llwybr rhif 32 (copi electronig 13 tudalen yn unig) copi gwreiddiol ar y bwrdd.

1. Ymholiad gan y Clerc ynglyn â chyfrifoldeb am y llwybr

2. Ymateb i'r ymholiad.

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth ac ysgrifennu'n ôl i dderbyn y cynnig i gynnwys y llwybr ar restr llwybrau'r Cyngor Tref.

168.10.23 EINIR PRITCHARD C.G., Ymateb i 130.9.23 prosiectau cymunedol

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth

Aeth y cyfarfod yn gaeëdig a gadawodd y Clerc yr ystafell.

169.10.23 MARIAN ROBERTS, Llythyr Ymddiswyddiad & Swydd Ddisgrifiad

Dychwelodd y Clerc i'r ystafell ac aeth y cyfarfod yn agored er mwyn i'r Clerc fedru cofnodi penderfyniad y Cyngor.

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth a hysbysebu swydd y Clerc yn Yr Wylan, Y Ffynnon, safle Un Llais Cymru a Facebook gyda'r dyddiad cau ar Dachwedd 5ed.

Roedd Cyng Llywelyn Rhys yn dymuno cofnodi, ar ran y Cyngor, ei ddiolch i'r Clerc am ei gwasanaeth dros y dair blynedd diwethaf. Roedd wedi cychwyn yn y swydd mewn amgylchiadau trasig iawn; wedi gweithio dan arweiniad 3 Cadeirydd gwahanol; wedi gwasanaethu yn ystod rhwystredigaethau cyfnod Cofid; wedi gwasanaethu drwy gyfnod o Etholiad Lleol ac wedi moderneiddio gweithdrefnau'r Cyngor Tref trwy'r defnydd o dechnoleg i gydfynd â rheolau newydd Llywodraeth Leol.

170.10.23 GWENAN JONES C.G., Ymateb i 134.9.23 holi am gais cynllunio bwrdd dehongli Madocks

Penderfynwyd :- y Clerc i ysgrifennu'n ôl gyda lluniau a chynllun o ffrâm addas ar gyfer gosod bwrdd dehongli uwchben un o'r meini wrth ymyl cerflun Madocks.

171.10.23 HYWYN WILLIAMS, Cyllid – Cymunedau Gwyrdd Gwynedd

Wedi trafod eisoes yn 159.10.23.

172.10.23 STEFFAN SMITH , Diwrnod gwybodaeth – Cynllun Peilot

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth

173.10.23 Y GANOLFAN, Ymateb i ymholiad am weithgaredd Nadolig

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth ac ysgrifennu'n ôl i ddiolch am eu cynnig i gydweithio gyda threfniadau Goleuo Port 24.11.23.

174.10.23 DŴR CYMRU, Ymateb i 117.9.23 Rhaglen waith carthffosiaeth

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth a nodi bod angen tystiolaeth ffotograffig i gefnogi unrhyw gŵyn neu ddatganiad o bryder er mwyn i Ddŵr Cymru fedru gweithredu'n effeithlon i wella'r broblem.

175.10.23 MATERION ARIANNOL :

Derbyniadau :-

Nododd y Clerc mai datganiad banc Awst / Medi ydoedd ac nid Gorffennaf / Awst fel yn y Rhaglen.

H.S.B.C.	Llog Banc Awst / Medi 2023	£	54.56
----------	----------------------------	---	-------

Awdurdodwyd y taliadau canlynol yn ôl cynnig Cyng Dr Melfyn Edwards, Cyng Alwyn Gruffydd yn eilio:-

1	Marian Roberts	LLinell Ffôn a Wê Medi 2023	£ 59.09
2	Marian Roberts	Cyflog Clerc Medi 2023	£ 975.10
3	Cyllid a Thollau ei Fawrhydi	Treth Incwm cyflog Clerc Medi 2023	£ 243.78
4	Y Ganolfan	Hyfforddiant ar y cyd 21.8.23	£ 30.00
5	Un Llais Cymru	Hyfforddiant Place Planning Clerc 14.9.23	£ 38.00
6	John Evans	Gwaith hebogwr Haf 2023	£ 400.00
7	Marian Roberts	Inc Du	£ 22.58

(Mae copi o bob sic ar gael i'w harchwilio ar gyfer awdit/rheolau ariannol)

Marian Roberts
 (Clerc)
 12.10.23

Daeth y cyfarfod i ben am 20.50.